

PCÔ-R Cymru'n deisybu'r Cynulliad

Ar ddydd Iau 25 Gorffennaf, cyflwynodd cynrychiolwyr PCÔ-R Cymru ddeiseb i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. 'Roedd yn galw am ymestyn Grantiau Dysgu'r Cynulliad (GDC) i fyfyrwyr ôl-radd, a sicrhau fod cynhaliaeth ddigonol ar gael i ôl-raddedigion o gronfeydd caledi pan ddaw GDC i rym. 'Roedd y ddeiseb yn cynnwys 400 o lofnodi-on gan fyfyrwyr pryderus o Abertawe, Bangor, Caerdydd ac Aberystwyth yn galw am well cynhaliaeth ariannol ar gyfer ôl-raddedigion.

Derbyniwyd ymateb i'r ddeiseb gan Kevin Clapham o'r Adran

Addysg Uwch, ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, ar 4 Medi. Dywedodd fod GDC wedi cael eu cyflwyno yn unol ag argymhellion Adroddiad Rees, tra bod Llywodraeth y DU yn dal i fod yn gyfrifol

am gynhaliaeth statudol ar gyfer myfyrwyr. Serch hynny, ystyrir 2002/2 i fod yn "flwyddyn arloesol, a bod Llywodraeth Cynulliad Cymru eisiau ddysgu o'r profiad". Gan gyfeirio at Gronfeydd Arian Wrth Gefn, esboniodd Mr Clapham "y byddai'r CAWG yn cael eu

gweinyddu yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, er y byddai Sefydliadau, wrth fynd ati i ystyried ceisiadau, yn rhoi ystyriaeth i unrhyw gynhaliaeth arall sydd ar gael i unigolion (e.e. GDC)."

Bydd PCÔ-R Cymru yn trafod hyn yn ein cyfarfod nesaf (gweler isod) lle byddwn yn penderfynu sut

i symud ymlaen gyda'r mater hwn. 'Rydym yn falch i sefydlu deialog gyda'r Cynulliad, a bod cynifer o ôl-raddedigion a swyddogion undebau myfyrwyr wedi cyfranogi yn ein hymgyrch llynedd.



Natasha Hirst a David Manning o BÔ-RC Cymru yn cyflwyno'r ddeiseb.

Cyfarfod nesaf PCÔ-R Cymru

Cynhelir y cyfarfod ar ddydd Gwener 1 Tachwedd o 2pm - 5pm yng Nghanolfan y Graddedigion, Prifysgol Caerdydd. 'Rydym yn annog holl gynrychiolwyr ôl-raddedigion, swyddogion sabathol sy'n cynrychioli ôl-raddedigion (megis swyddogion addysg), swyddogion myfyrwyr hyn, ac unrhyw un arall sydd â diddordeb, i fynychu'r cyfarfod. Mae'r agenda hyd yma yn cynnwys y canlynol:

- Dilyn i fyny o gyflwyno'r ddeiseb i'r Cynulliad
- Y diweddaraf ar argymhellion Adroddiad Rees ar gyfer ôl-raddedigion
- Ehangu cyfranogiad ar gyfer ôl-raddedigion?
- Cynlluniau ar gyfer Semester y Gwanwyn

Os hoffech ychwanegu unrhyw beth at yr agenda, yna anfonwch e-bost at wales@npc.org.uk. Ar y diwrnod canlynol (dydd Sadwrn 2 Tachwedd) cynhelir cyfarfod o PCÔ-R Cymru yng Nghaerdydd, lle bydd yr Athro Teresa Rees, cadeirydd y grwp annibynnol a 'sgrifennodd "Adroddiad Rees", yn siarad ar gyfleoedd cyfartal mewn addysg uwch. Os hoffech fynychu'r ddau ddigwydiad, cysylltwch â ni'n fuan ar mwyn trefnu llety ar gyfer y nos Wener.

Dogfen briffio PCÔ-R Cymru ar gyfer swyddogion

Ym mis Awst Eleni, aeth PCÔ-R Cymru ati i gynhyrchu a dosbarthu dogfen briffio, a 'sgrifennwyd fel cyflwyniad i faterion ôl-radd ar gyfer swyddogion undeb myfyrwyr. Mae'r ddogfen ar ein safwe os hoffech fwrw golwg drosti (www.npc.org.uk/cymru), neu gallwn anfon copi i chi trwy'r post.

Beth yw PCÔ-R Cymru?

Ein nod yw hyrwyddo addysg ôl-radd yng Nghymru. 'Rydym yn rhan o PCÔ-R y DU, sy'n gorff elusennol, ac 'rydym yn cydweithio ag UCMC. 'Rydym yn annog unrhyw un sy'n cynrychioli ôl-raddedigion i gyfranogi.

Cysylltu â PCÔ-R Cymru:

wales@npc.org.uk · <http://www.npc.org.uk/cymru>